Cofnodion cyfarfod cyffredin **CYNGOR TREF RHUTHUN** a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Ffordd Wynnstay, Rhuthun, nos Lun, 24 Medi 2018, am 7:00pm.

PRESENNOL: Y Cynghorwyr Ian Lewney (Maer) a Gavin Harris (Dirprwy Faer)
Y Cynghorwyr Keiran Allsopp-Robson, Stephen Beach, Ken Hawkins, John Wynne Hughes, Menna Jones, Robert Owen-Ellis, Anne Roberts, Dave Snape, Heather Williams, Ifan Wyn ac Emrys Wynne.

75. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Rosie Hughes.

76. DATGAN BUDDIANNAU

Gwnaeth y Cynghorydd Jim Bryan ddatgan budd yn eitem 26 – Paentio Rheiliau Cofeb Ryfel Rhuthun.

77. CYFLWYNO COPI'R GIDEONIAID O'R YSGRYTHUR I'R MAER

Cyflwynodd Mr Trebor Roberts o'r Gideoniaid Rhyngwladol gopi o Feibl y Gideoniaid i Faer Rhuthun, y Cynghorydd Ian Lewney.

78. ADRODDIAD YR HEDDLU

Croesawodd y Maer y Sarjant Martin Jones i gyflwyno adroddiad ar faterion plismona yn Rhuthun. Cyflwynodd ei hun a diolchodd i'r aelodau am y croeso, a thrafododd fformat yr adroddiadau roedd yn bwriadu eu darparu, yn debyg i'r rhai a ddarperir i'r 14 Cyngor Tref a Chymuned mae'n eu cwmpasu. Anogodd aelodau i gysylltu gydag ef i roi enwau unigolion yr amheuir eu bod yn gwerthu cyffuriau neu droseddau eraill, ac roedd ei fanylion cyswllt ar yr adroddiad a ddosbarthwyd i'r aelodau.

79. ADRODDIAD Y MAER

Adroddodd y Maer ei fod wedi bod yn y digwyddiadau a ganlyn.

15.07 Dathlu pen-blwydd Mary Hatton yn 100 yn Valley Lodge
16.07 Seremoni wobrwyo Sgowtiaid Rhuthun
17.07 Beirniadu arddangosfeydd blodau busnesau'r dref
19.07 Noson agoriadol arddangosfa Tom Pryce yn Amgueddfa Dinbych
22.07 Gwasanaeth Dinesig Maer y Rhyl yn Eglwys Sant Tomos, Y Rhyl
06.08 Agor Cyfnewidfa Gwisg Ysgol CAB Rhuthun yn 15 Stryd y Ffynnon, Rhuthun
11.08 Agoriad swyddogol siop State of Distress yn Sgwâr Sant Pedr
17.08 Cyfarfod y Pwyllgor Pwerau Brys
18.08 Cinio gyda Chadeirydd Sioe Flodau Rhuthun a beirniadu'r gystadleuaeth gwisg ffansi a cheir clasurol
02.09 Gwasanaeth Dinesig Maer Llanelwy yn yr Eglwys Gadeiriol
Gwasanaeth Dinesig Maer Treffynnon yn Eglwys y Drindod Sanctaidd, Treffynnon
10.09 Cyfarfod yr Is-bwyllgor Craffu Ariannol a Phwyllgor y Gymraeg.
17.09 Cyfarfod Blynyddol CAB Sir Ddinbych yng Nghanolfan Eirianfa, Dinbych

80. ADRODDIADAU'R AELODAU

Cyng. Gavin Harris (Dirprwy Faer) — Ymgynghoriad dehongli Ymddiriedolaeth Castell Rhuthun, cyfarfod gyda Tom Booty a Carolyn Brindle, Cyngor Sir Ddinbych, ynghylch Dyfodol Rhuthun, cyfarfod gyda Jon Chapman, Rheolwr Strydlun De Sir Ddinbych ynghylch cynlluniau'r Pwyllgor Amwynderau/Tîm Tref Taclus, Sioe Flodau Rhuthun, cyfarfod coffáu canmlwyddiant diwedd y Rhyfel Byd Cyntaf gyda'r Parchedig Stuart Evans ac eraill, cyfarfod diweddaru ynghylch Dyfodol Rhuthun gyda swyddogion Cyngor Sir Ddinbych, Drysau Agored Rhuthun, cyfarfod yr Is-bwyllgor Craffu Ariannol a Phwyllgor y Gymraeg, ymweliad safle cais cynllunio Bryn Goodman,

	tynnu llun i nodi cyflwyno nawdd i Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych 2020 yn y Ganolfan Grefft, noson lansio'r Tîm Tref Taclus a'r sesiwn dacluso gyntaf yn Rhodfa'r Rheilffordd a Chyfarfod Blynyddol Canolfan Awelon.
Cyng. Keiran Allsopp-Robson	Cyfarfod gyda Jon Chapman, Rheolwr Strydlun De Sir Ddinbych ynghylch cynlluniau'r Pwyllgor Amwynderau/Tîm Tref Taclus, cyfarfod y Pwyllgor Pwerau Brys a chyfarfod Addysgu a Dysgu Llywodraethwyr Ysgol Stryd y Rhos.
Cyng. Stephen Beach	Cyfarfod Pwyllgor y Gymraeg.
Cyng. Jim Bryan	Cyfarfod Pwyllgor Rheoli Canolfan Awelon, 5 cyfarfod cyffredin a Chyfarfod Blynyddol Gŵyl Rhuthun, 4 cyfarfod Cymdeithas Efeillio Rhuthun, cyfarfod y Pwyllgor Pwerau Brys, Cyfnewidfa Gwisg Ysgol CAB Rhuthun a chyfarfod lansio Tîm Tref Taclus Rhuthun.
Cyng. Ken Hawkins	Addasu cloc Eglwys Sant Pedr o 5 munud yn araf i 3 munud ar y blaen, agoriad y Gyfnewidfa Gwisg Ysgol gan CAB Rhuthun, Sioe Flodau Rhuthun a goruchwylio Aeriel Electrics yn gosod goleuadau gwyn ar ochr orllewinol tŵr Eglwys Sant Pedr.
Cyng. John Hughes	Sioe Flodau Rhuthun.
Cyng. Rosie Hughes	Dim i'w adrodd.
Cyng. Menna Jones	Beirniadu'r arddangosfeydd blodau, Sioe Flodau Rhuthun, helpu yn y Banc Bwyd am ddwy sesiwn, tynnu llun i nodi cyflwyno nawdd i Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych 2020 yn y Ganolfan Grefft a chyfarfod lansio'r Tîm Tref Taclus yn y Manorhaus.
Cyng. Robert Owen-Ellis	5 sesiwn Banc Bwyd, cyfarfod yr Is-bwyllgor Craffu Ariannol, cyfarfod lansio'r Tîm Tref Taclus yn y Manorhaus, noson wobrwyo myfyrwyr Blwyddyn 11 a 13 Ysgol Brynhyfryd a sesiwn dacluso Rhodfa'r Rheilffordd gyda'r Tîm Tref Taclus.
Cyng. Anne Roberts	Cyfarfodydd Ymlaen Rhuthun, plannu coeden ar safle'r ysgolion newydd yng Nglasdir gan Gymdeithas Ddinesig Rhuthun a'r Cylch, beirniadu'r arddangosfeydd blodau, cyfarfod Cymdeithas Ddinesig Rhuthun a'r Cylch, cyfarfod gyda Jon Chapman, Rheolwr Strydlun De Sir Ddinbych ynghylch cynlluniau'r Pwyllgor Amwynderau/Tîm Tref Taclus, cyfarfod gyda gwirfoddolwyr Tesco ym maes chwarae'r Caeau Chwarae Coffa, ymweld â'r Gyfnewidfa Gwisg Ysgol gan CAB Rhuthun yn Stryd y Ffynnon, dosbarthu llyfrynnau Drysau Agored ar Sgwâr Sant Pedr, cyfarfod ar lwybr Cwningar y Castell gyda'r Clerc a Jim Hall, Cyngor Sir Ddinbych, ynghylch ailosod y seddi, cyfarfod Ymlaen Rhuthun i drefnu'r arddangosfa tân gwyllt, cyfarfod coffáu canmlwyddiant diwedd y Rhyfel Byd Cyntaf gyda'r Parchedig Stuart Evans ac eraill, Drysau Agored Rhuthun, cyfarfod yr Is-bwyllgor Craffu Ariannol, cyfarfod lansio'r Tîm Tref Taclus yn y Manorhaus a Drysau Agored Rhuthun – lansio llwybr digidol (i-Beacon) Castell Rhuthun.
Cyng. Dave Snape	Cyfarfod yr Is-bwyllgor Craffu Ariannol.
Cyng. Heather Williams	Cyfarfod Pwyllgor Rheoli Canolfan Awelon, ymweliad safle cais cynllunio Bryn Goodman, tynnu llun i nodi cyflwyno nawdd i Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych 2020 yn y Ganolfan Grefft a chyfarfod lansio'r Tîm Tref Taclus yn y Manorhaus.
Cyng. Ifan Wyn	Cyfarfod Pwyllgor Rheoli Theatr John Ambrose, cyfarfod lansio'r Tîm Tref Taclus yn y Manorhaus, sesiwn dacluso Rhodfa'r Rheilffordd gyda'r Tîm Tref Taclus a Chyfarfod Blynyddol Gŵyl Rhuthun.
Cyng. Emrys Wynne	Tynnu llun i nodi cyflwyno nawdd i Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych 2020 yn y Ganolfan Grefft a chyfarfod Pwyllgor y Gymraeg.

81. COFNODION Y CYFARFOD CYFFREDIN BLAENOROL
PENDERFYNWYD*: cadarnhau bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Gorffennaf 2018 yn gywir.*

82. MATERION YN CODI
Nododd y Cynghorydd Robert Owen-Ellis fod ei ail gyfnod yn y swydd yn cynrychioli'r Cyngor Tref fel Llywodraethwr Ysgol Pen Barras ar fin dod i ben, a phenderfynwyd cynnwys hyn fel eitem agenda yng nghyfarfod nesaf y Cyngor.

83. PWYLLGOR PWERAU BRYS
PENDERFYNWYD*: derbyn a mabwysiadu cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ddydd Gwener, 17 Awst 2018.*

84. COFNODION Y PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU
Tynnodd Gadeirydd y pwyllgor sylw at eitemau o gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Medi 2018.
PENDERFYNWYD*: derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Medi 2018.*

85. COFNODION Y PWYLLGOR AMWYNDERAU
Tynnodd Gadeirydd y pwyllgor sylw at eitemau o gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Medi 2018.
PENDERFYNWYD*: derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Medi 2018.*

86. COFNODION YR IS-BWYLLGOR CRAFFU ARIANNOL
PENDERFYNWYD*: derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Medi 2018.*

87. COFNODION PWYLLGOR Y GYMRAEG
PENDERFYNWYD*: derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Medi 2018.*

88. DYDDIADAU CYFARFODYDD YN 2019
Gofynnwyd i'r aelod dderbyn gwybodaeth am Ginio Elusennol y Maer a chymeradwyo'r dyddiadau ar gyfer cyfarfodydd y flwyddyn nesaf.
PENDERFYNWYD*: cymeradwyo'r dyddiad, yn amodol ar newid dyddiad cyfarfod mis Ebrill o Ddydd Llun y Pasg, 22 Ebrill i ddydd Mawrth, 23 Ebrill 2019.*

89. DIWEDDARIAD YNGHYLCH RHEOLIADAU DIOGELU DATA CYFFREDINOL (GDPR)
Darparwyd diweddariad i'r aelodau ynghylch y trefniadau GDPR a gofynnwyd iddynt gymeradwyo'r polisïau a'r hysbysiadau. Bu'r aelodau'n trafod y papurau a gyflwynwyd.
PENDERFYNWYD*: derbyn adborth yn y cyfarfod nesaf.*

90. PANEL ADOLYGU ANNIBYNNOL CYNGHORAU TREF A CHYMUNED YNG NGHYMRU – CANFYDDIADAU AC ARGYMHELLION AMLINELLOL
Gofynnwyd i'r aelodau ystyried goblygiadau'r canfyddiadau a'r argymhellion amlinellol. Roedd yr argymhellion yn cynnwys goblygiadau i gynghorwyr â 'dwy het' h.y. y rhai sy'n aelodau Cyngor Tref/Cymuned a Chyngor Sir ac i'r Clerc.
PENDERFYNWYD*: cynnal Is-bwyllgor Staffio cyn cyfarfod nesaf y Pwyllgor Amwynderau i drafod llwyth gwaith Clerc y Dref.*

91. AROLWG O DREFNIADAU ETHOLIADOL SIR DDINBYCH
Gofynnwyd i'r aelodau ystyried y ddogfen uchod. Nododd y Cynghorydd Emrys Wynne nad oedd yn cynnig newidiadau i drefniadau etholiadol Rhuthun a bod mwyafrif y cynigion yn ymwneud â'r trefniadau etholiadol yng nghyswllt Cyngor Sir Ddinbych.
PENDERFYNWYD*: cyfeirio'r ddogfen at y Grŵp Craffu ar Ddogfennau.*

92. PRIS DYFRIO BASGEDI CROG

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried cais gan J & C Brimble i gywiro camgymeriadau yn y rhestrau prisio ar gyfer 2018, 2019 a 2020.
***PENDERFYNWYD**: trafod yr eitem hon yn Rhan Dau.*

93. MAES CHWARAE'R CAEAU CHWARAE COFFA

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried cynnig gan Glwb Peldroed Rhuthun i baentio'r ffens o gwmpas y maes chwarae, yn ddarostyngedig i'r Cyngor Tref ddarparu'r paent.
***PENDERFYNWYD**: cyfeirio'r eitem hon i'r Pwyllgor Amwynderau ei drafod.*

94. CALENDR ELUSEN Y MAER

Ystyriodd yr aelodau gais bod y taliad am Galendrau Elusen y Maer yn cael ei wneud o gyfrif Cyngor Tref Rhuthun yn gyntaf, a'i ad-dalu maes o law o elw gwerthu'r calendrau. Gofynnodd yr aelodau am fanylion y costau.
***PENDERFYNWYD**: gohirio'r cais nes derbyn manylion y costau.*

95. TYSTYSGRIF ARCHWILIO AC ADRODDIAD YR ARCHWILYDD ALLANOL

Cyflwynodd y Clerc Dystysgrif Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Adroddiad Materion yn codi yr archwilydd allanol am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2018.
***PENDERFYNWYD**: derbyn y Dystysgrif a nodi'r materion a gynhwyswyd yn yr Adroddiad Materion yn Codi am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2018.*

96. DATGANIAD ARIANNOL

Gofynnwyd i'r aelodau gymeradwyo'r Datganiad Ariannol am y cyfnod yn diweddu 31 Awst 2018. Tynnodd y Clerc sylw fod yr ail daliad praesept wedi'i dderbyn a chyfraniadau tuag at gostau teithio gan Gyngor Tref Dinbych a Chyngor Cymuned Llanfair Dyffryn Clwyd.
***PENDERFYNWYD:** derbyn a chymeradwyo'r Datganiad Ariannol am y cyfnod yn diweddu 31 Awst 2018.*

97. CYFRIFON I'W TALU

***PENDERFYNWYD**: cymeradwyo talu'r eitemau a ganlyn.*

100034	SLCC Enterprises Ltd	Seminar Hyfforddiant Rhanbarthol, Llandudno, 05.09.18	*	£90.00
100035	Llanfwrog CIC	Torri glaswellt – Medi		£352.26
100036	Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi	Treth incwm ac Yswiriant Gwladol		£295.55
100037	Cyngor Tref Dinbych	Cyfran o'r costau teithio i gyfarfod cangen SLCC yn Nhreffynnon		£4.70
100038	Cyng. Gavin Harris	Menyg, gwregysau gloyw, ffyn codi sbwriel a bagiau bin o Workplace-Worksafe	*	£361.08
100039	Cyng. Gavin Harris	Protek 25 litr o staen pren lliw du		£208.00
100040	Cyng. Gavin Harris	Batri lithiwn gyda batri rhannu pŵer	*	£119.98
100041	Cyng. Gavin Harris	Glanhawr pwysedd cludadwy di-gebl 'Hydroshot'	*	£119.99
100042	Cyng. Gavin Harris	Torrwr glaswellt di-gebl	*	£63.99
100043	Cyng. Gavin Harris	Chwythwr lithiwm di-gebl – corff yn unig	*	£39.99
100044	Cyng. Gavin Harris	3 x goleuadau solar Albany gan y Solar Centre	*	£127.45
100045	Richard Williams (Deganwy) Ltd	Eitemau ar gyfer Tîm Tref Taclus Rhuthun	*	£241.16
100046	Marian Rees	Cyfieithu ar y pryd	*	£180.00
D.U.	BT Business	Gwasanaethau ffôn a band eang	*	£208.84

98. YMDDISWYDDIAD CYNGHORYDD TREF

Gofynnwyd i'r aelodau dderbyn hysbysiad gan y Maer y derbyniwyd llythyr yn cyflwyno ei hymddiswyddiad gan y Cynghorydd Rosie Hughes. Gofynnodd yr aelodau am anfon llythyr o ddiolch at y Cynghorydd Hughes.

PENDERFYNWYD*: derbyn ymddiswyddiad y Cynghorydd Hughes a chyhoeddi'r hysbysiad gofynnol ynghylch sedd wag ar Gyngor Tref Rhuthun.*

99. DIWEDDARIAD AR GAIS RHUTHUN AM STATWS CROESAWU BYSIAU MOETHUS

Darparwyd diweddariad i'r aelodau gan Colin Thomas, Rheolwr Cyffredinol CPT Cymru (Conffederasiwn Cludiant Teithwyr), ynghylch hynt y cais uchod. Cadarnhaodd ei fod wedi cwblhau'r archwiliad safle o ran y cyfleusterau parcio bysiau moethus yn Rhuthun a'i fod wedi anfon ei adroddiad at y pwyllgor dyfarnu, gan ddatgan ei fod o blaid y cais a'i fod bellach yn nwylo'r pwyllgor i gadarnhau hynny a dyfarnu'r statws.

PENDERFYNWYD*: nodi'r diweddariad a disgwyl am hysbysiad pellach.*

100. PAENTIO'R RHEILIAU O GWMPAS COFEB RYFEL RHUTHUN

Gadawodd y Cynghorydd Jim Bryan y siambr yn ystod y trafodaethau am yr eitem hon.

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried dyfynbris am baratoi a phaentio'r rheiliau o gwmpas y Gofeb Ryfel ar Ffordd Wynnstay gan Vinny Spillane, Rhuthun, gan fod amser yn brin i gwblhau'r gwaith cyn dechrau digwyddiadau Cofeb '18, ac nid oedd y gwaith wedi'i gwblhau gan y contractwr gwreiddiol er gwaethaf rhoi sicrwydd y byddai wedi'i wneud cyn diwedd Awst.

PENDERFYNWYD*: canslo gwasanaethau D. Whitley a derbyn y dyfynbris gan Vinny Spillane am £250.00.*

<u>RHAN DAU</u>

Cynigiwyd ac eiliwyd trafod yr eitemau nesaf fel eitemau Rhan Dau oherwydd natur gyfrinachol y trafodaethau.

101. PRIS DYFRIO BASGEDI CROG

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried cais gan J & C Brimble i gywirio camgymeriad yn y rhestrau prisio ar gyfer 2018, 2019 a 2020. Pwysleisiodd yr aelodau bod y prisiau wedi'u trafod ddwywaith gan y Pwyllgor Amwynderau a bod y pris a gyflwynwyd wedi'i dderbyn.

PENDERFYNWYD*: talu'r swm sy'n weddill o'r pris a gyflwynwyd ar gyfer 2018, a gofyn am brisiau eto ar gyfer y tymor newydd yn 2019.*

102. CYFLOG CLERC Y DREF

Dosbarthwyd manylion am yr uchod i'r aelodau.

PENDERFYNWYD*: cadarnhau'r taliad cyflog dyledus a'r treuliau a hawliwyd.*

103. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

PENDERFYNWYD*: cadarnhau mai dyddiad y cyfarfod cyffredin nesaf fydd nos Lun, 22 Hydref 2018 am 7.00pm.*